**<u>Pwyllgor Datblygu Economaidd</u>** **<u>EDC 03-02(draft min)</u>**

**COFNODION**

**Dyddiad** **30 Ionawr 2002**
**Amser** **2.00 – 5.30pm**
**Lleoliad** **Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**

**Presenoldeb**

| **Aelodau** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Alison Halford | Delyn |
| Chris Chapman | Cwm Cynon |
| Ron Davies | Caerffili |
| Mike German | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Brian Hancock | Islwyn |
| David Melding | Canol De Cymru |
| Rhodri Morgan (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) | Gorllewin Caerdydd |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |
| | |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Sue Essex (Y Gweinidog dros yr Amgylchedd) | Gogledd Caerdydd |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| David Pritchard | Cyfarwyddwr, Datblygu Economaidd |
| Emyr Roberts | Yr Is-adran Cynllunio Economaidd |
| Keith Parsons | Yr Is-adran Cynllunio Economaidd |
| Robin Shaw | Cyfarwyddwr Trafnidiaeth |
| Roger Bonehill | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |
| Phil Gray | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Sheila Maxwell | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Caroline Turner | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| Reg Kilpatrick | Yr Is-adran Cynllunio Economaidd |

**Yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Nick Eyre | Ymddiriedolaeth Arbed Ynni |
| David Vincent | Ymddiriedolaeth Carbon y DU |
| Annie Thompsett | Ymddiriedolaeth Carbon Cymru |
| Alun James | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| Jake Chapman | Ymgynghorydd Arbenigol ar yr Adolygiad o Bolisi Ynni |
| Karen Thomas | WDA |
| David Swallow | WDA |
| Jon Horne | Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd |
| Frank Maloney | Siambr Fasnach Caerdydd |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| John Grimes | Clerc |
| Sian Wilkins | Dirprwy Glerc |

**Ymddiheuriadau a Dirprwyadau**

Dirprwyodd David Melding dros Alun Cairns a oedd wedi anfon ymddiheuriad. Yr oedd David Davies wedi nodi y byddai'n hwyr i'r cyfarfod ond ni fu'n bresennol.

**Eitem 1: Sylwadau agoriadol y Cadeirydd.**

1. Gwnaethpwyd datganiadau o fuddiant gan Christine Gwyther y mae ei chymar yn berchen ar fusnes ymgynghoriaeth, gan Dafydd Wigley sydd yn gyfarwyddwr ar gwmni bach a chan Brian Hancock sydd yn gweithio fel ymgynghorydd ar Iechyd a Diogelwch.

**Eitem 2: Yr Adolygiad o Ynni**

1. Gwahoddodd y Cadeirydd gynrychiolwyr o'r sector effeithlonrwydd ynni i gyflwyno rhagymadrodd byr i'w papurau. Dywedodd Nick Eyre o'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni fod effeithlonrwydd ynni yn ymwneud â darparu mwy o'r hyn yr oeddem am ei gael o ran manteision cymdeithasol ac amgylcheddol a llai o'r hyn nad oeddem am ei gael o ran difwyniant a chynhesu byd-eang. Ychwanegodd fod dealltwriaeth helaeth o'i fanteision amgylcheddol a chymdeithasol yn y sector domestig, ond bod llai o ddealltwriaeth ynghylch y manteision economaidd. Y pennaf o'r rhain oedd y byddai buddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni yn creu swyddi ond yr hyn a oedd yn llai amlwg oedd y byddai'r arian a gâi ei arbed drwy effeithlonrwydd ynni yn cael ei wario mewn economïau lleol, gan symbylu adfywiad, a phwysleisiodd y

byddai hyn yn rhan bwysig iawn o adolygiad y Pwyllgor. Teimlai, er bod rhai camau i'w cymryd ar lefel Ewrop neu'r DU, fod gan y Cynulliad lawer o gyfleoedd pwysig mewn effeithlonrwydd ynni cartref drwy bolisïau Awdurdodau Lleol a Thai.

2. Tynnodd David Vincent o'r Ymddiriedolaeth Carbon sylw at y potensial mawr ar gyfer effeithlonrwydd ynni yn y sector annomestig yn y sectorau preifat a chyhoeddus. Dywedodd y byddai lleihau gwastraff ynni yn y sector cyhoeddus yn peri bod mwy o arian ar gael ar gyfer gwasanaethau rheng flaen. Ychwanegodd ei bod yn bwysig anfon negeseuon cryf ynghylch effeithlonrwydd ynni mewn caffael cyhoeddus ac wrth wneud hynny y dylai'r sector hwn chwilio am atebion ynni-effeithlon. Y potensial ar gyfer arbedion yn y sector hwn oedd 20 y cant a bu ar y lefel hon am o leiaf 20 mlynedd oherwydd gwelliannau cyson mewn technoleg.
3. Amlinellodd Alun James o Asiantaeth yr Amgylchedd gysylltiad yr Asiantaeth â materion ynni a nododd ei phrif rolau fel rheoleiddiwr modern, cyfathrebwr gwybodus ac amddiffynnydd yr amgylchedd yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy. Dywedodd fod defnydd cynaliadwy o ynni yn rhan hanfodol o ddatblygu cynaliadwy. Yr oedd yr Asiantaeth yn cyfrannu at effeithlonrwydd ynni yn bennaf drwy ei rôl rheoleiddio.
4. Yn y drafodaeth gyffredinol holodd yr Aelodau y cyflwynwyr ynghylch targedau realistig ar gyfer effeithlonrwydd ynni. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni fod cytundeb cyffredinol, er nad oes gan Lywodraeth y DU dargedau penodol, ei bod wedi awgrymu y byddai gwelliannau o 12.5 y cant ym mhob un o'r ddau ddegawd nesaf yn ymestynnol ond yn gyraeddadwy. Er bod rhaglenni cyllido mawr yn bod eisoes ar gyfer y sectorau domestig ac annomestig, byddai'n rhaid cynyddu maint y rhaglenni presennol i gyrraedd y targedau hynny. Cydnabyddid hefyd fod yn rhaid bod yn ofalus wrth nodi'r gwahaniaethau rhwng lleihau defnydd ac effeithlonrwydd ynni. Barn yr Ymddiriedolaeth Carbon oedd bod y defnydd o ynni yng Nghymru yn dilyn patrwm gwahanol i ranbarthau eraill yn y DU oherwydd ei sylfaen ddiwydiannol a'r stoc dai hyn. Yr oedd ymarfer mapio ar y gweill ar hyn o bryd ar gyfer defnyddio ynni yng Nghymru a theimlent y dylid defnyddio hyn yn sail ar gyfer penderfyniadau ynghylch targedau.
5. Holodd yr Aelodau a ellid cyrraedd unrhyw dargedau heb newid yn ymagwedd y cyhoedd a gofynasant a oedd y cynlluniau presennol yn cael eu hybu'n ddigon llwyddiannus. Cydnabyddid na fyddai defnyddwyr yn meddwl bob amser am effeithiau'r cynhesu byd-eang wrth wneud penderfyniadau ynghylch prynu neu eu ffordd o fyw. Yr oedd cytundeb bod cymhelliant defnyddwyr ar gyfer effeithlonrwydd ynni wedi ei symbylu gan amryw o ffactorau gan gynnwys effaith amgylcheddol ac arbedion costau. Dywedodd Nick Eyre fod yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn ymwybodol iawn o'r angen am newid mewn arferion a bod ymwybyddiaeth gyhoeddus yn holl bwysig i gyrraedd y targedau. Dywedodd eu bod yn edrych yn gyson ar ddulliau o greu ymwybyddiaeth a bod yn rhaid delio ar lefel yr UE â mesurau fel rhoi labeli "Ynni Effeithlon" ar nwyddau gwyn.
6. Yr oedd cydnabyddiaeth, gan fod pobl yn treulio llawer o'u diwrnod yn y gwaith,

fod arferion a feithrinir yn y gweithle yn gallu cael eu trosglwyddo i'r cartref ond yr oedd cydnabyddiaeth hefyd fod pobl yn fwy tebygol o feddwl am faterion gwyrdd mewn sefyllfa ddomestig nag yn eu gwaith. Dywedodd Alun James mai un ffordd o hybu ymwybyddiaeth oedd tynnu sylw at y cysylltiad rhwng y cynhesu byd-eang a llifogydd a hyrwyddo'r ffaith y gall unigolion gael effaith. Ychwanegodd eu bod yn annog diwydiannau i ymgymryd â Gwres a Phwer Cyfunol ond gan fod rhesymau economaidd gwellwell dros wneud hynny, yr oedd hyn yn faes lle'r oedd gwelliannau i'w gweld. Cydnabyddid y byddai'r dechnoleg ar gyfer Micro Gwres a Phwer Cyfunol i'w ddefnyddio yn y sector domestig yn debygol o fod ar gael yn gyffredinol ymhen tua dwy flynedd a gallai hyn arwain at ostyngiad o hyd at 50 y cant yng nghostau trydan. Nodwyd bod Micro Gwres a Phwer Cyfunol yn fwy tebygol o fod yn effeithiol mewn adeiladau hyn ac y dylid ystyried felly ei fod yn cynnig gobaith gwirioneddol leihau tlodi tanwydd yn yr adeiladau hyn.

7. Dywedodd David Vincent fod cyflwyno'r Dreth Newid Hinsawdd yn Ebrill 2001 wedi bod yn newid mawr yn y diwylliant anogaeth ac yr oedd cwmnïau mawr bellach yn ymgymryd ag ymagwedd systematig at effeithlonrwydd ynni. Cydnabyddid hefyd fod yr NHS yn faes da i wneud arbedion yn y galw am ynni ac mewn effeithlonrwydd ynni a chyfeiriodd un Aelod at adroddiad diweddar gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar reoli ystad yr NHS a'r costau a nodwyd ynddo. Dywedodd Annie Thompsett fod yr Ymddiriedolaeth Carbon yn cydnabod yr arbedion y gellid eu gwneud yn yr NHS a'u bod, ar ôl cydnabod prosiectau arfer gorau, yn gallu targedu ysbytai eraill yng Nghymru.
8. Nododd un Aelod y maint o wres gradd isel a oedd yn sicr o fod ar gael yng Nghymru oddi wrth ddiwydiannau trwm a gofynnodd a oedd gwaith ar y gweill i'w ailgylchu. Dywedodd Nick Eyre fod yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn edrych ar y cyfle i brosiectau Gwres a Phwer Cyfunol a'i bod wedi gofyn am astudiaethau dichonoldeb a dylunio. Dywedodd Annie Thompsett fod yr Ymddiriedolaeth Carbon yn casglu cronfa ddata ar y pryd a fyddai'n caniatáu iddynt ganfod defnyddwyr mawr a'r diwydiannau hynny sydd â photensial Gwres a Phwer Cyfunol. Byddai hyn yn eu galluogi wedyn i weithio gyda'r Cynulliad wrth addasu cynlluniau i gyfateb i'r galw.
9. Wrth derfynu'r drafodaeth, diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr am eu cyfraniad gwerthfawr i'r adolygiad o ynni a gofynnodd iddynt roi gwybod i'r Pwyllgor am ddatblygiadau pellach yn y prosiectau a nodwyd yn ystod y drafodaeth.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog.**

1. Rhoddodd y Gweinidog ddiweddariad byr ar lafar ar faterion a oedd wedi codi ers paratoi ei adroddiad ysgrifenedig. Atodir copi i'w adroddiad. Hefyd nododd wall yn ei adroddiad o dan adran 4, ar Ffermydd Gwynt, a dywedodd y dylai'r drydedd frawddeg ddarllen "Gan fod cynllun Cefn Croes yn fwy na 50MW paratôdd Llywodraeth y Cynulliad ei hymateb i'r Adran Masnach a Diwydiant, a gyhoeddwyd ar wefan y Cynuliad Cenedlaethol ar 26 Hydref".

2. Rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y sefyllfa ynghylch Cray Valley Products a oedd wedi cyhoeddi y bore hwnnw ei fod yn cau ei safle ym Machen. Rhannai bryderon yr Aelodau ynghylch colli'r cwmni a dywedodd fod y WDA yn ymweld â hwy y funud honno ond deallai fod y cwmni wedi dweud bod eu penderfyniad yn un terfynol. Dywedodd mai'r rheswm a roddodd y cwmni oedd bod y cynhyrchion yr oeddent yn eu gwneud yn mynd o'r ffasiwn yn araf ac nad oedd rhagolygon o dwf tymor hir. Deallai fod y cynhyrchu i'w symud i safle'r cwmni yn Swydd Lincoln ac ni allai gadarnhau sïon y byddid yn mynd â'r gwaith i Ffrainc.
3. Nododd un Aelod fod y safle ym Machen yn gartref i swyddogaeth ymchwil a datblygu'r cwmni a bod hyn yn un golled eto mewn ymchwil a datblygu ar ôl colli'r Cyfarwyddwr Technoleg yn ESM fel a adroddwyd ym mhapur y Gweinidog. Dywedodd y Gweinidog fod y sefyllfa yn ESM yn newid o ddydd i ddydd a, gan fod y trafodaethau mor fasnachol sensitif ar y pryd, na allai wneud sylw pellach ar y datblygiadau. Ychwanegodd ei bod yn bosibl y byddai gan Gymru fantais dros leoliadau heb gymorth mewn mannau eraill, pan oedd gan gwmni ormod o gynhwysedd ac am leihau nifer ei weithfeydd, os oedd y gweithfeydd yng Nghymru mewn lleoliadau mewn Rhanbarthau Cymorth, ond nid oedd hyn yn gweithio o'n plaid bob tro.
4. Dywedodd yr Aelodau fod y colledion swyddi yn ardal de Cymru yn dangos y taer angen am ddefnyddio Fframwaith Adfywio De Ddwyrain Cymru fel glasbrint a holasant ynghylch yr oedi cyn dod ag ef gerbron y Pwyllgor. Dywedodd y swyddogion y câi'r ddogfen ei chwblhau yn Chwefror ar ôl ei harwyddo gan y partneriaid Tîm Cymru lleol. O ystyried maint y prosiect, a nifer y partneriaid sector cyhoeddus a phreifat a oedd yn gysylltiedig, bydd yr ymarfer wedi ei gwblhau o fewn cyfnod rhyfeddol o fyr. Cadarnhaodd y Gweinidog fod yr Adroddiad i fod i ddod gerbron y Pwyllgor ar 6 Mawrth 2002 a bod hyn wedi ei adael allan o'r Camau Gweithredu sydd yn Aros drwy amryfusedd.
5. Holodd un Aelod a ddylid ailhysbysu Cynllun Adran 4 Bwrdd Croeso Cymru ar gyfer y cyfan o'r DU, gan fod perygl na fyddai Cymru yn gallu gweithredu'r cynllun fel arall. Dywedodd y swyddogion eu bod mewn trafodaeth ag amrywiaeth eang o bartneriaid a Llywodraeth y DU a bod hyn yn fater sensitif. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu adroddiad llawn ar ôl cwblhau'r trafodaethau. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**
6. Ynghylch Cefn Croes, ailadroddodd y Gweinidog y rhesymau pam nad oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn galw am ymchwiliad cyhoeddus. Dywedodd ei bod yn bwysig deall pa Weinidog a oedd yn gwneud y penderfyniad ac yn yr achos hwn yr oedd y penderfyniad yn eiddo i'r Adran Masnach a Diwydiant. Dywedodd fod hyn yn benderfyniad lled-farnwrol ac nid yn benderfyniad polisi ond holodd un Aelod a ddylai'r Gweinidog fod wedi cynnig barn, er hynny. Dywedodd, os na ddylai fod wedi gwneud, fod goblygiadau sylfaenol yn hynny i ystod eang o brosiectau yng Nghymru. Gwnaethpwyd pwynt gan Aelod arall ei bod yn bosibl bod yr ymchwiliad ei hun yn benderfyniad lled-farnwrol ond nid felly y

penderfyniad i gael un. Gofynnodd un Aelod i'r Gweinidog nodi'r holl ystod o faterion a ystyrid yn lled-farnwrol fel na fyddai'r dryswch hwn yn codi yn y dyfodol. Cytunodd y Gweinidog i ymchwilio i weld a fyddai ymarfer o'r fath yn golygu gwerth da am arian. Nododd y byddai'n golygu llawer iawn o waith, yn ôl pob tebyg. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**

7. Cyfeiriodd un Aelod at sylwadau oddi wrth fusnesau i'r perwyl ei bod yn ymddangos bod prinder unedau ffatri sydd ar gael i gymryd meddiant ohonynt yn gyflym yng ngogledd Cymru a hefyd fod y broses gynllunio yn gyffredinol yn creu problemau ar gyfer datblygiadau newydd. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn clywed y feirniadaeth hon ar y broses gynllunio yn rheolaidd a'i fod yn derbyn bod canfyddiad gan fusnesau fod hyn yn wir ond nid oedd yn sicr ei fod yn wir. Gofynnodd i'r Aelod roi manylion penodol iddo fel y gallai ymchwilio i'r achos ymhellach.
8. Cytunodd y Gweinidog i godi'r materion a oedd yn effeithio ar weithwyr yn Friction Dynamics gyda'r Adran Gyflogaeth ac adrodd i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf. **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**
9. Holodd un Aelod ynghylch y cyfeiriad yng nghofnodion y cyfarfod diwethaf ynghylch lleoli staff Interreg III a dywedodd fod y ffaith bod yr arbenigedd yng Nghaerdydd yn sicr o fod yn berthnasol i bob maes ac yr oedd yn amau a oedd ewyllys gwleidyddol i symud adrannau'r Cynulliad i rannau eraill o Gymru. Dywedodd y swyddogion fod dwy elfen yn staffio'r rhaglen Interreg, ac er bod y tîm Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a weinyddai'r rhaglen wedi ei leoli yng Nghaerdydd, y byddai swyddogion datblygu prosiect yng ngogledd a gorllewin Cymru. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn rhy fuan i wneud cyhoeddiadau ynghylch yr adolygiad o leoli ond bod yn rhaid cydnabod y byddai rhai mathau o swyddogaethau yn fwy addas i'w hail-leoli.
10. Cytunodd y Gweinidog â sylw gan Aelod ynghylch y problemau sydd yn wynebu gweithwyr Alcan sydd yn byw yn y Ty Du. Dywedodd fod y Ty Du y tu allan i'r fframwaith rhanbarthau cymorth ond ei fod yn ymchwilio i bob dull a modd i liniaru'r problemau yr oeddent yn eu hwynebu. Cytunodd hefyd i adrodd ymhellach i'r Pwyllgor os byddai ganddo unrhyw wybodaeth ynghylch unrhyw gontractau cyfredol neu ddiweddar gan y Cynulliad ag Arthur Anderson. . **[Cam Gweithredu: Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd]**
11. Dywedodd yr Aelodau eu bod wedi pwysleisio ers talwm, dro ar ôl tro, yr angen am bartneriaeth ynni, trafnidiaeth integredig a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Dywedodd yr Aelodau nad oeddent yn hoffi'r cyfeiriadau at ddarparu cyllid 'cyfyngedig' ar gyfer seilwaith pan oedd y symiau a oedd ar gael yn symiau mawr iawn o arian mewn gwirionedd.
12. Cyfeiriwyd at y cyllid ychwanegol oddi wrth y Trysorlys yr oedd Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi ei addo ar ben hynny oddi wrth fformiwla Barnett. Nododd yr Aelodau mai'r disgwyliadau ar hyn o bryd oedd y byddai tua dwy ran o dair o wariant y rhaglen Amcan 1 yn digwydd yn yr ail hanner. Yr oeddent yn gobeithio y câi'r un egwyddor ei mabwysiadu wrth ailddyrannu cyllid. Dywedodd y Gweinidog

ei fod yn credu, er na ellid byth gael gwarant o gyllid yn y dyfodol, fod yr egwyddor sylfaenol wedi ei chytuno a'i derbyn ac y câi ei chymhwyso ym mlynyddoedd y dyfodol.

**Eitem 4: Cynllun Busnes Awdurdod Porthladd Caerdydd**

1. Wrth gyflwyno'r eitem, nododd y Cadeirydd fod y Cynllun Busnes yn gyfrifoldeb i'r Awdurdod Porthladd ac nad oedd yn rhywbeth yr oedd y Gweinidog neu'r swyddogion wedi cyfrannu ato. Er hynny, gobeithiai y byddai ef a'r swyddogion yn ymuno yn y drafodaeth lle y gallent. Gan ategu hynny, cadarnhaodd y Gweinidog nad oedd yn gyfrifol am gynnwys y cynllun ond bod angen iddo fod yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y Bae ac yr oedd y swyddogion yn dilyn y cynnydd yn fanwl, yn enwedig er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r cytundebau Adran 165.
2. Mynegodd nifer o'r Aelodau bryder a siom ynghylch yr oedi wrth gynhyrchu'r Cynllun ac amseriad ei ddarparu iddynt. Yr oedd yn ymdrin â 2000-05 a byddent wedi disgwyl i gynllun o'r fath fod wedi ei gwblhau yn 1999 nid Rhagfyr 2001. O ganlyniad, yr oedd llawer o'r wybodaeth ynddo, a'r rhan fwyaf o'r amcanestyniadau ariannol wedi dyddio.
3. Nododd yr Aelodau fod datblygiad y Bae i fod er budd Cymru gyfan ac nid Caerdydd yn unig. Yr oeddent yn bryderus, felly, fod rheolaeth yr Awdurdod yn gyfan gwbl o fewn Sir Caerdydd a mynegwyd y farn bod gwrthdrawiad ym muddiannau Cadeirydd Awdurdod y Porthladd gan ei fod hefyd yn arweinydd Sir Caerdydd.
4. Mynegwyd pryder hefyd fod y Gweinidog a oedd yn gyfrifol am gysylltiad y Cynulliad Cenedlaethol hefyd yn AC dros Gaerdydd. Fodd bynnag, gwrthododd y Gweinidog hyn gan ddweud, gan ei fod wedi gwrthwynebu'r datblygiad tra oedd yn AS, y gellid ei feirniadu i'r un graddau am fod ganddo ragfarn yn ei erbyn. Teimlai na ellid cyfiawnhau'r pryder oni bai fod tystiolaeth o ymyrryd amhriodol.
5. Cyfeiriodd yr Aelodau at y gwahanol eitemau o wariant yn y Bae a oedd o fudd sylweddol i Gaerdydd ac yr oedd yn bwysig ganddynt fod prosiectau a gâi eu cyllido gan y Cynulliad yn cael eu gweld yn glir yn rhai a oedd er budd Cymru gyfan – ac nad oedd Caerdydd yn elwa ar draul awdurdodau lleol eraill.
6. Mynegwyd pryder ei bod yn ymddangos bod llawer o'r prif bynciau a oedd yn wynebu'r Bae wedi eu gadael allan. Yn benodol, nid oedd ond un frawddeg ar feysydd parcio a thoiledau a dim ond ychydig o wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus. Nodwyd bod y trefniadau trafnidiaeth y tu allan i gylch gwaith yr Awdurdod Porthladd. Er hynny, yn y drafodaeth, dywedodd yr Aelodau ei bod yn bwysig peidio â chanolbwyntio'n ormodol ar y materion neygyddol ac y dylid llongyfarch yr Awdurdod Porthladd ar y nifer sylweddol o weithgareddau yr oeddent wedi eu cadw o fewn y gyllideb.
7. Ar fater trafnidiaeth gyhoeddus, dywedodd Sue Essex mai rhan o'r broblem oedd na fu hyn yn flaenoriaeth yn yr ardal yn y gorffennol. Felly yr oedd angen gwneud llawer iawn o waith sylfaenol a sefydlu cysylltiadau effeithiol rhwng y partïon

perthnasol yn y Bae. Dywedodd ei bod yn ymdrechu'n galed i wneud hyn.

8. Holodd yr Aelodau a oedd yn briodol i'r Gwasanaeth Archwilio Dosbarth fod yn archwilydd allanol i'r awdurdod o ystyried y lefelau sylweddol o gyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Dywedodd y swyddogion fod gan yr Archwilydd Cyffredinol gyfrifoldeb cyffredinol dros holl wariant y Cynulliad Cenedlaethol a byddai ei swyddfa'n gweithio'n agos gyda'r Archwilydd Dosbarth. Gobeithid na fyddai hyn yn arwain at ddyblygu syml ar waith a chostau archwilio.
9. Holodd yr Aelodau ynghylch cysylltiad Cyngor Sir Bro Morgannwg gan nad oedd y cwbl o ardal datblygiad Bae Caerdydd o fewn Sir Caerdydd. Er y derbynnid bod angen i'r cyfrifoldeb cyffredinol berthyn i un awdurdod, awgrymwyd y byddai'n briodol cael enwebiad o un neu ddau gynrychiolydd o'r awdurdod arall i'r Awdurdod Porthladd. Dywedodd y Gweinidog na allai gofio'r union drefniadau, ond credai eu bod wedi eu cytuno ar y cyd gan y ddau awdurdod. Dywedodd David Melding y byddai'n siarad â Bro Morgannwg am hyn ac os nad felly yr oedd byddai'n rhoi gwybod i'r Gweinidog.
10. Nododd yr Aelodau mai dim ond rhai rhwymedigaethau ariannol penodol yr oedd yr Awdurdod Porthladd wedi ymgymryd â hwy ac y byddai unrhyw wariant nas rhagwelwyd y tu allan i hynny yn dod i ran y Cynulliad. Dywedodd y swyddogion ei bod yn anorfod erioed mai felly y byddai. Rhoesant gadarnhad hefyd fod y taliadau i'r Awdurdod Porthladd ar sail hawliadau yn erbyn gwariant gwirioneddol. Mewn ymateb i gwestiwn, dywedasant fod y cytundeb â Chaerdydd am bum mlynedd gyda darpariaethau ar gyfer adolygu. Mae'r Cytundeb yn cynnwys darpariaeth i'r naill blaid neu'r llall gael terfynu'r trefniant ar yr amod ei bod yn rhoi 12 mis o rybudd.
11. Gan grynhoi'r drafodaeth, dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Clerc yn drafftio llythyr iddi i'w anfon at Gadeirydd yr Awdurdod Porthladd gan gyfleu barn y Pwyllgor gan gynnwys cyfeiriad at gais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewropeaidd. Dywedodd y Cadeirydd y câi'r llythyr drafft ei e-bostio i'r Aelodau er mwyn cael eu sylwadau.

**Eitem 5: Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd.**

1. Dywedodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a'r Gweinidog dros yr Amgylchedd na fyddent yn cyflwyno'r papur, gan fod amser yn brin, ond y byddent yn cymryd bod yr holl Aelodau wedi ei ddarllen.
2. Yr oedd yr Aelodau yn croesawu'r gwaith a wnaeth y Gweithgor yn gyffredinol ac yn cytuno â'r asesiad na ellid ystyried y mater ar ei ben ei hun a bod rhaid ymdrin ag ef fel datblygiad er budd economaidd Cymru gyfan. Fodd bynnag, yr oedd pryderon bod y papur yn edrych ar un agwedd ar y mater yn unig.
3. Dywedodd un Aelod mai'r cwbl a wnâi'r cyfeiriadau yn y papur at y ffyrdd y gallai maes awyr rhyngwladol fod o fudd i economi Cymru oedd haeru hynny heb gynnig unrhyw dystiolaeth y gallai datblygu'r maes awyr presennol sicrhau'r manteision hynny. Ni chyfeiriai at y maes awyr ym Mryste y gellid ei ystyried yn brif gystadleuydd nac at y

cynlluniau ar gyfer maes awyr yng Nglan Hafren. Felly er ei fod yn cyflwyno dadleuon dros ddatblygu maes awyr Caerdydd, nid oedd yn cynnwys unrhyw ddadansoddiad gwrthrychol o'r dewisiadau eraill.

4. Mynegodd yr Aelodau bryder y byddai unrhyw ddadansoddiad o ddatblygiad Maes Awyr Caerdydd yn cael ei ddirymu gan fwriad i sefydlu maes awyr newydd yng Nglan Hafren a gofynasant a oedd hynny wedi ei ollwng bellach. Dywedodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd nad oedd cynlluniau ar gyfer prosiect o'r fath, er gwaethaf y sïon.
5. Tra'n cytuno bod angen ymgymryd â dadansoddiad llawn o'r dewisiadau eraill, nodwyd nad oedd angen gwneud hynny'n awr o reidrwydd ac nad oedd y papur yn cynnwys argymhelliad i wario arian ar wella'r ffordd fynediad. Pe byddai hynny'n digwydd, byddai angen ei weld yn rhan o Gynllun Gofodol Cymru
6. Pwysleisiodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd mor bwysig oedd meddwl yn integredig ynghylch mater mynediad i'r maes awyr. Tynnodd sylw at ailagor cyswllt rheilffordd a dywedodd ei fod yn ddull cymharol syml o wella mynediad i'r maes awyr yn y tymor byr nad oedd yn rhagatal penderfyniad ar wella'r ffordd. Fodd bynnag, nododd, lle y collid busnes i faes Awyr Bryste, nad oedd hynny o reidrwydd yn digwydd oherwydd safon y ffordd bresennol ond am nifer o resymau eraill hefyd.
7. Mynegwyd y farn ei bod yn ymddangos bod llawer o feysydd awyr y dyddiau hyn yn canolbwyntio ar reilffyrdd yn hytrach na ffyrdd fel y prif ddull mynediad ac y dylai Maes Awyr Caerdydd ddilyn yr esiampl hon. Fodd bynnag, nodwyd bod y gost o gysylltu'r rheilffordd bresennol â'r maes awyr yn afresymol am amryw o resymau.
8. Dywedodd Jon Horne ei bod yn bwysig derbyn y byddai cwmni awyrennau yn cael ei ddenu i faes awyr am ei fod yn fodd i wneud busnes yn unig. Yr hyn a oedd yn allweddol am leoliad oedd ei ddalgylch ac yn enwedig natur y dalgylch hwnnw. Nododd fod y rhaniad rhwng busnes siarter a busnes rheolaidd yng Nghaerdydd yn adlewyrchiad yn rhannol o boblogaeth de Cymru – a oedd yn eithaf gwahanol i'r un yn nalgylch maes awyr Bryste.
9. Gan grynhoi'r drafodaeth, diolchodd y Cadeirydd i bawb am ei gyfraniad ac am drafodaeth ddiddorol iawn. Nododd y byddai'r Pwyllgor yn parhau i ymddiddori yn y prosiect ac edrychai ymlaen at adroddiadau pellach arno yng ngoleuni gwaith y Gweithgor fel yr argymhellwyd yn yr Adroddiad.

**Eitem 6: Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol**

1. Cytunwyd bod Cofnodion 10 a 16 Ionawr yn gofnodion cywir o'r cyfarfodydd.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**